

Miwsig i'n clustiau

“...a gwardedigion yr Arglwydd fydd yn dychwelyd. Dônt i Seion dan ganu, bob un gyda llawenydd tragwyddol; hebryngir hwy gan lawenydd a gorfoledd.” (adn. 10)

Beth am ddarllen Eseia 35:1–10 ac yna myfyrio

“Dydy Iesu Grist,” meddai Oswald Chambers, “ddim yn dod at ddyd ac yn dweud ‘Cod dy galon’. Mae’n plannu gwyrrth llawenydd natur Duw ei hun o’i fewn.” Dyna i chi rodd. Ymysg y nifer o bethau sy’n achosi camddealltwriaeth ynglŷn â’r ffydd Gristnogol mae’r syniad trist bod derbyn Iesu Grist i’n bywyd yn golygu y byddwn yn ddigalon. Dydy’r ffaith bod yna groes yng nghalon y ffydd, a bod dilyn Crist yn golygu hunanymwâd llym, ddim yn newid y gwirionedd canolog yma: mae adnabod Iesu yn golygu adnabod llawenydd.

Dywedodd Dr W.E. Sangster: “Y gair Groeg a ddefnyddir ar gyfer llawenydd yn y Testament Newydd fel arfer yw *chara* – gair cryf a phwerus sy’n golygu chwerthin.” Mae’n mynd yn ei flaen i ddweud: “Nid ymostyngiad yn glaswenu ydy llawenydd. Mae’n afieithus, ac, ar achlysuron, yn llawn miri.” Mae pobl sy’n rhy gaeth i wedduster yn meddwl, yn eu ffordd swil eu hunain ac mewn ffordd ddigon cwrtais, bod yna arlliw o’r di-chwaeth mewn llawenydd Cristnogol. Dyna drist. Dyna ofnadwy o drist. Mae sylfaenydd Cristnogaeth wedi gadael rhodd i ni o’r ffydd fwyaf llawen, y lleiaf gormesol a’r lleiaf gwaharddedig o’r holl grefyddau ar y ddaer yma.

Mae Dr L.P. Jacks, yn dweud: “Does dim un ffydd arall sy’n taflu baich bywyd ymaith mor llwyr, sy’n dianc mor gyflym oddi wrth ein hwyliau, sy’n rhoi cymaint o rwydd hynt i asbri’r enaid, â’r ffydd roddodd Iesu Grist i ni. Dydy Cristnogaeth ddim yn hel meddyliau ynghylch gofidiau dynolryw. Mae’n eu cydnabod ond nid yn pendroni drostynt. Miwsig sydd i’w glywed bob amser, ac weithiau ddawnsio hefyd.” Os nad ydyn ni’n clywed, mae’n rhaid nad ydyn ni’n gwrando.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam: 6:12–22; 1 Cron. 16:23–33; Luc 15:21–32; Eff. 5:19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth y barnodd Michal Ddafydd?
2. Pam oedd y brawd hynaf yn flin yn y ddameg ddywedodd Iesu?

Gweddi

O Dad grasol a chariadus, boed i nghlustiau fod ar agor bob amser i’r miwsig sydd ar gael yn d’Efengyl i mi. Tiwnia fy holl enaid i donfedd y Drindod. Yn enw Iesu. Amen.